

115 Hysbyseb am Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)

Cyflog

£110,335

Lleoliadau

Cymru a Lloegr

Disgrifiad bras

Gofynnwyd i'r JAC adnabod 25 o ymgeiswyr i'w hargymell fel Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon). Disgwylir i'r ymarfer hwn ddechrau am 13:00 ar 5 Mawrth.

Gwybodaeth am y rôl

Aelodau cyflogedig o'r farnwriaeth sy'n gwrandao achosion yn y llysoedd ynadon yw Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon). Mae ganddynt awdurdodaeth genedlaethol ledled Cymru a Lloegr. Fe'u penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines ac mae ganddynt awdurdod i eistedd mewn unrhyw lys ynadon yng Nghymru a Lloegr.

Prif awdurdodaeth y Barnwyr Rhanbarth yw'r llys troseddol i oedolion. Mae'r mwyafrif hefyd yn eistedd yn y Llys Ieuencid, gyda rhai Barnwyr penodol yn meddu ar yr awdurdod i wrando achosion troseddwr ifanc sydd wedi'u cyhuddo o droseddau rhywiol difrifol. Disgwylir hefyd i Farnwyr Rhanbarth eistedd yn y Llys Teulu Unigol ac ymgymryd â dyfarniadau carchar. Hefyd, mae gan rhai Barnwyr Rhanbarth:

- yr awdurdodaeth i wrando achosion dan y Deddfau Estraddodi. Mae'r Barnwyr Rhanbarth hyn, yn ôl yr arfer, yn cynnal gwrandawriadau Cymorth Cilyddol dan y Deddfau Troseddwr ar Ffo
- wedi'u dynodi gan yr Arglwydd Brif Ustus i ddelio â materion dan Ddeddf Terfysgaeth 2000
- maent wedi'u hawdurdodi i wrando achosion a all arwain at ddirwyon digyfngiad

Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn disgwyl y bydd Barnwyr Rhanbarth yn delio ag achosion ledled eu hawdurdodaeth, yn cynnwys ardaloedd ar wahân i'r llys lle maent wedi'u lleoli.

Pwy all wneud cais

Mae'n rhaid ichi fod yn gyfreithiwr, bargyfreithiwr neu Gymrawd yn Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx), gydag o leiaf 5 mlynedd o brofiad cyfreithiol ar ôl cymhwyso, i wneud cais.

Hefyd, dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth o'r gyfraith droseddol a gweithdrefnau troseddol a dylent allu gwasanaethu am gyfnod rhesymol o amser, 5 mlynedd fel arfer, cyn cyrraedd yr oedran ymddol statudol, sef 70.

Disgwylir hefyd y bydd gan ymgeiswyr brofiad barnwrol blaenorol yn eistedd fel barnwr cyflogedig neu farnwr sy'n derbyn ffi, neu brofiad mewn rôl debyg megis cadeirydd sefydliad cyfwerth lle mae cymhwyster cyfreithiol yn ofynnol.

Gwybodaeth am y broses

Trwy gydol y broses ddethol, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn y [fframwaith cymwyseddau](#) sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer swydd Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon). Mae'r cymwyseddau wedi'u halinio â'r fframwaith Sgiliau a Galluoedd Barnwrol a ddefnyddir gan y farnwriaeth a'r Coleg Barnwrol, ac mae'n rhestru'r ffyrdd y gall unigolyn arddangos y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol wrth weithio'n effeithiol yn y swydd.

Fel rhan o'r cais, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu enghreifftiau penodol yn erbyn y fframwaith cymwyseddau i arddangos y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol. Pennir uchafswm o 250 gair ar gyfer pob cymhwysedd. Ceir gwybodaeth bellach am [gwblhau'r hunanasesiad](#) a [dewis yr enghreifftiau gorau](#) ar wefan y JAC.

Cyn ichi wneud cais, rhaid [creu cyfrif ar-lein](#). Rhaid i'r holl ymgeiswyr greu cyfrif ar-lein cyn gwneud cais am swydd farnwrol drwy system ymgeisio ar-lein y JAC. Bydd eich cyfrif yn cynnwys eich proffil personol, eich proffil cymeriad a'ch proffil amrywiaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio ar y system hefyd, felly os byddwch yn gwneud cais am swydd arall yn y dyfodol, dim ond diweddarau eich manylion sydd angen, gan wneud y broses ymgeisio yn gyflymach ac yn haws.

[Cofrestrwch ar ein rhestr diweddariadau](#) i gael hysbysiadau trwy ebost ynghylch cynnydd yr ymarfer hwn hyd at y dyddiad lansio.